Tyfu sector garddwriaeth Cymru trwy arloesedd

Papur Briffio Polisi Hydref 2026

CRYNODEB

Yr oedd yr ymchwil gweithredu cyfranogol hwn yn canolbwyntio ar gyd-ddylunio ymyriadau ymarferol y gellid eu treialu i gefnogi a dwyn manteision economaidd i arddwriaeth sy'n gyfeillgar i natur yng Nghymru. Cynhaliwyd dau weithdy gyda thua 35 yn cyfranogi yn y naill a'r llall; dewiswyd y cyfranogwyr am eu gwybodaeth a'u profiad o'r sector. Edrychodd y grŵp i mewn i statws presennol garddwriaeth yng Nghymru, ei botensial at y dyfodol, yn ogystal â ffactorau economaidd, logistaidd a pholisi fyddai'n ei gefnogi, a rhwystrau i'w ddatblygu yn y dyfodol. Datblygodd y grŵp gyfres o gynigion sydd â'r potensial i wella hyfywedd economaidd cynhyrchu garddwriaethol yng Nghymru, yn ogystal ag ymdrin â heriau cymdeithasol-economaidd ehangach gan gynnwys Clefydau Anhrosglwyddadwy (CA) a achosir gan ddiet, trosi cynaliadwy i sero net, arallgyfeirio defnydd tir, a'r heriau logistaidd mae garddwyr yn wynebu wrth gyrchu marchnadoedd. O ganlyniad i'r gweithdai hyn a'r cynigion a gynhyrchwyd gan y cyfranogwyr, gwnawn yr argymhellion a ganlyn:

- Ehangu mynediad at dir a thai fforddiadwy i arddwyr
- Buddsoddi mewn seilwaith, cefnogaeth logistaidd a chludo cynnyrch gerddi i farchnadoedd
- Integreiddio ac ehangu hyfforddiant hygyrch i arddwyr newydd a phresennol
- Datblygu marchnadoedd rhanbarthol i arddwriaeth sydd hefyd yn ymdrin ag iechyd y cyhoedd a CA a achosir gan ddiet

CEFNDIR

Amcanion yr Astudiaeth

Mae'r astudiaeth hon yn rhan o waith ehangach gan Cymru Wledig LPIP Rural Wales ar gefnogi'r trosi i Sero Net. Mae'n edrych i mewn i statws cyfredol y sector garddwriaeth fwytadwy yng Nghymru ac yn argymell cynigion am sut i gefnogi a datblygu'r sector hwn.

Cyd-destun Polisi

Mae amaethyddiaeth yng Nghymru yn cyfrannu at allyriadau nwyon tŷ gwydr, a hefyd yn dioddef ei effeithiau. Daeth y sector garddwriaethol i'r amlwg dros y blynyddoedd diwethaf fel rhan arunig o strategaeth defnydd tir Cymru, a'i safle yn y gorffennol ac yn awr mewn systemau ffermio cymysg. Mae cyhoeddi Strategaeth Bwyd Cymunedol Cymru yn ddiweddar, ynghyd â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd a chyfoesi rheolau am gaffael cyhoeddus, oll yn tanlinellu pwysigrwydd garddwriaeth. Mae hyn yn gyfle i randdeiliaid weithredu ar sail o wybodaeth a gwneud cynnydd yng nghyswllt y datblygiadau diweddar hyn mewn polisi Cymreig a'i gydnabyddiaeth o bwysigrwydd garddwriaeth.

Sail y Dystiolaeth

Cynhaliodd Cymru Wledig LPIP Rural Wales gyfres o weithdai ar gefnogi a gwobrwyo garddwriaeth fel rhan o'u Labordai arloesedd. Yr oedd y labordai hyn yn cyd-gynhyrchu cynigion arloesol i gefnogi datblygu economi lles yng Nghymru. Dygodd y labordai garddwriaeth ynghyd grŵp o 35 o bobl oedd yn cynrychioli tyfwyr, addysgwyr, partneriaethau bwyd lleol, grwpiau ymgyrchu, awdurdodau lleol ac ymchwilwyr i systemau bwyd am gyfres o weithdai am ddau ddiwrnod llawn ym misoedd Mehefin a Gorffennaf

2025. Yr oedd y rhain yn edrych i mewn i statws cyfredol garddwriaeth yng Nghymru, ac yna'n cyd-ddylunio'r dyfodol y byddid yn ei ddymuno i'r sector, ac ymyriadau posib allai arwain at y trosi hwn. Cynhyrchodd y gweithdai hefyd gryn nifer o awgrymiadau eraill gan randdeiliaid allweddol am sut i sbarduno gwelliannau yn y sector.

CANFYDDIADAU ALLWEDDOL

Angen mwy o dir i gynhyrchu gerddi ac fel tai i gynhyrchwyr

Pwysleisiodd y sawl a gymerodd ran yn y gweithdai mor bwysig oedd i dyfwyr newydd a rhai presennol allu cyrchu tir fforddiadwy ar gyfer tai a busnesau garddio. Mae'n hollbwysig fod pobl yn gallu byw'n agos i'r lle maent yn gweithio. Mynegwyd cryn bryder ynghylch y duedd bresennol i awdurdodau lleol werthu ffermydd sydd ym meddiant y cynghorau. Ar y llaw arall, yr oedd canmol mawr i enghreifftiau arloesol o arferion da, megis Bremenda Isaf yn Sir Gaerfyrddin, a phrosiect Ffermydd y Dyfodol Powys yn Sarn. Mae'r naill gynllun a'r llall yn cefnogi datblygu economaidd lleol yn ogystal â gwell mynediad at gynnyrch gardd ac amaethyddol-ecolegol a dyfir yn lleol.

Tyfwyr angen mwy o gefnogaeth i gyrchu marchnadoedd rhanbarthol

Mae'r diffyg mynediad at farchnadoedd diogel ac economaidd hyfyw yn rhwystr sylweddol i newydd-ddyfodiaid i'r sector garddwriaethol ac i'r busnesau hynny a fyddai fel arall yn cael eu hannog i uwchraddio eu cynhyrchu ac ehangu eu busnes. Er y bu twf sylweddol mewn hybiau ar-lein sydd yn cynyddu gwerthiant i dyfwyr ar raddfa fechan, yr oedd llawer yn teimlo bod y farchnad hon fwy neu lai yn orlawn, a'i bod yn anodd parhau yn economaidd hyfyw. Y mae marchnadoedd go-iawn a allai roi cyfleoedd i gynhyrchwyr werthu, a hefyd gynyddu mynediad at fwyd iach i ddefnyddwyr; fodd bynnag, erys seilwaith a chludiant yn rhwystrau mawr o hyd. Mae hyn yn galw am gryfhau'r seilwaith a chysylltiadau economaidd gyda busnesau systemau bwyd eraill, megis y sector lletygarwch.

Gwella ansawdd sgiliau a hyfforddiant, a mynediad atynt

Mae diffyg cysylltiad ar hyn o bryd rhwng y gwahanol gyfnodau mewn addysg, yn bennaf AB ac AU, a DPP i bobl sydd eisoes yn gweithio yn y sector. Nid yw garddwriaeth, nac addysg ynghylch y system fwyd yn ehangach, yn cael blaenoriaeth yn y cwricwlwm, ac nid yw felly yn ysbrydoli nac yn dwyn i mewn ddarpar-dyfwyr ar bob cyfnod o'u haddysg. Mae'r cyfleoedd am hyfforddiant yn wasgaredig, ac nid oes yr un corff cydgordio canolog fyddai'n hwyluso newydd-ddyfodiaid i ennill y sgiliau garddwriaethol a busnes mae arnynt eu hangen i lwyddo yn y sector. Nid yw'r sector yn cael ei hyrwyddo fel cyfle am yrfa i bobl ymgeisio amdano, ac yn sgil hynny gael yr ysbrydoliaeth a'r sgiliau trwy gydol eu gyrfa addysgol a thu hwnt. Mae'r diffyg cydgordio hwn hefyd yn cyfyngu ar y gallu i ddenu buddsoddiad preifat i gefnogi ehangu'r sector.

Ni welir garddwriaeth yng Nghymru fel gyrfa hyfyw na dull o gynhyrchu bwyd

Oherwydd graddfa fechan y sector, a'r pwyslais hanesyddol diweddar o ran economi a llywodraethiant ar i ffermwyr symud ymaith oddi wrth ffermio cymysg, nid yw garddwriaeth yn cael ei weld fel cyfle hyfyw am yrfa. Bydd pobl ifanc sy'n dod i mewn i amaethyddiaeth yn tybio mai tyfu glaswellt ar gyfer cynhyrchu cig neu gynnyrch llaeth yw'r dewis diofyn o ran defnydd tir a ffermio yng Nghymru. Gwaethygir y duedd hon gan yr heriau sy'n wynebu newydd-ddyfodiaid o ran cael tir i gychwyn mentrau garddio. Mae mentrau garddwriaethol ar raddfa caeau yn gofyn am gyfarpar a seilwaith a all fod yn enbyd o ddrud i newydd-ddyfodiaid, neu bobl sydd am arallgyfeirio eu dull o ffermio a rheoli tir.

Dylid cysylltu cryfhau sector garddwriaeth Cymru â blaenoriaethau eraill y llywodraeth a gwreiddio

Y mae cyfleoedd i ddatblygu bwydydd cyfleus sy'n defnyddio lefel uchel o lysiau Cymreig. Mae arferion cyfredol o ran bwyta a phrynu bwyd sydd yn rhoi blaenoriaeth i brydau siop a phrydau parod, sydd yn aml yn uchel mewn braster, halen a siwgr, yn tanseilio ymdrechion iechyd cyhoeddus, yn cyfrannu at amrywiaeth o CA sy'n deillio o ddeiet, gan gynnwys gordewdra, diabetes a phroblemau cardiofasgwlaidd. Mae pryder cynyddol ymysg maethegwyr am lefel isel y ffibr yn niet pobl. Byddai datblygu bwydydd cyfleus sydd â lefelau uchel o lysiau Cymreig yn mynd i'r afael a nifer o dargedau'r llywodraeth: byddai cynyddu swm y llysiau mae'r cyhoedd yn fwyta yn rhoi manteision iechyd ac yn lleihau pwysau ar y gwasanaeth iechyd, ac ar yr un pryd yn cefnogi hyfywedd economaidd y

agwedd o 'ddatrys yn lluosog'

sector garddwriaethol. Mae'r agwedd 'datrys lluosog' hon yn dwyn ynghyd y gwahanol sectorau sy'n wynebu'r un heriau, er lles i bawb.

ARGYMHELLION

O'r canfyddiadau uchod, mae ein hargymhellion i Lywodraeth Cymru a'r awdurdodau lleol yn cynnwys yr isod:

Cefnogi darparu tir hygyrch, fforddiadwy ar gyfer tai a thyfu

Defnyddio tir cyhoeddus er budd y cyhoedd: Dylai tir sydd mewn dwylo cyhoeddus, fel ffermydd cymunedol a thiroedd ysgolion gael eu cadw fel adnodd cyffredin a'i ddefnyddio ar gyfer cynhyrchu garddwriaethol. Mae modd tyfu bwyd i ysgolion, cartrefi gofal, ysbytai a chyrff cyhoeddus eraill. Gall garddwriaeth amlwg iawn ar dir cyhoeddus hefyd godi proffil cyhoeddus y sector.

Datblygu gwasanaeth cyfatebu tir: Dylid datblygu cronfa ddata i Gymru gyfan o dir sydd yn nwylo ac yn cael ei reoli gan y sector cyhoeddus, preifat a'r 3^{ydd} sector, a'i ddefnyddio i gyfatebu tyfwyr gyda thir garddwriaethol addas sydd ar gael yn lleol. Dylai ecolegwyr ac agronomegwyr gynnal arolwg o'r tir hwn i asesu maint a graddfa'r tir garddwriaethol posib sydd ar gael yng Nghymru. Dylai asesiadau ddelio â statws ecolegol cyfredol a hyfywedd amaethyddol y tir yn ogystal â newidiadau arfaethedig mewn hyfywedd sy'n deillio o newid hinsawdd.

Ehangu cartrefi newydd fforddiadwy: Dylai canllawiau cynllunio newydd seiliedig ar brosiect Ffermydd y Dyfodol Cyngor Sir Powys gael eu hyrwyddo'n eang a'u mabwysiadu ledled y Gymru wledig, er mwyn galluogi mwy o arddwyr i gael cartrefi fforddiadwy sydd hefyd yn agos at safleoedd lle mae bwyd yn cael ei gynhyrchu.

Tynnu allan y risg o drosi i arddwriaeth ar raddfa caeau

Gwella seilwaith a thrafnidiaeth: Mae tyfwyr ar raddfa fechan yn cael trafferth barhaus i gael eu cynnyrch i farchnadoedd, tra bod y marchnadoedd yn wynebu prinder wrth geisio cael digon o gynnyrch. Gallai cynlluniau gyda chymorth y llywodraeth, gan gynnwys cefnogaeth gan yr Asiantaeth Ddatblygu Genedlaethol, ddatblygu cadwyni cyflenwi lleol i hwyluso casglu a dosbarthu cynnyrch. Hefyd, mae angen buddsoddi mewn canolfannau pacio a phrosesu llysiau yn rhanbarthol er mwyn i dyfwyr allu manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd mewn marchnadoedd yn eu rhanbarthau.

Gwarantu pris teg i arddwyr: Sefydlu hybiau bwyd hygyrch a phris gwarantedig i dyfwyr sy'n troi i gynhyrchu ar raddfa caeau. Mae modd cryfhau a dynwared mentrau diweddar fel y prosiect Llysiau Cymreig i Ysgolion, a newidiadau mewn polisi caffael i fod yn gyfrwng i sicrhau pris teg a gwarantedig i dyfwyr. Hefyd, gall datblygu systemau digidol i gysylltu ceginau a thimau caffael canolog, yn ogystal â System Bwrcasu Ddeinamig, ei gwneud yn haws i fwy o dyfwyr elwa o'r cyfleoedd economaidd sy'n gysylltiedig â gwerthu i raglenni caffael Cymreig.

Cyd-ddylunio cynlluniau bwyd rhanbarthol: Dod â thyfwyr, busnesau a defnyddwyr ynghyd i gyd-ddylunio cynlluniau bwyd blynyddol ac ymdrin annifer o flaenoriaethau'r llywodraeth. Mae'r rhain yn cynnwys cryfhau economïau rhanbarthol a gwytnwch bwyd, a gwella mynediad at gynnyrch fforddiadwy i gymunedau ar incwm isel , a phobl nad ydynt ar hyn o bryd yn bwyta llawer o lysiau. Gall y cynlluniau hyn ddwyn ysgolion a chymunedau ynghyd, er mwyn gofalu bod unrhyw fanteision o newidiadau i gaffael ac agwedd ysgol-gyfan at fwyd hefyd yn arwain at newid mewn diet a chartrefi yn bwyta mwy o fwyd seiliedig ar blanhigion.

Cryfhau cysylltiadau economaidd ac ymarferol rhwng busnesau: Rhoi cefnogaeth logistaidd, weinyddol ac economaidd i gysylltu tyfwyr garddwriaethol gyda thwristiaeth, lletygarwch a busnesau eraill. Mae mwy o awydd ymysg defnyddwyr a busnesau am gynnyrch lleol, ond mae heriau o ran seilwaith a dosbarthu yn aml yn cyfyngu ar botensial i dyfwyr fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd hyn. Gellid defnyddio cymhellion i bob busnes lletygarwch er mwyn annog y sector hwn i ddefnyddio mwy o gynnyrch garddwriaethol. Gall cyfleusterau storio rhanbarthol a chadwyni dosbarthu hefyd hwyluso mwy o gyfleoedd i

dyfwyr gyflenwi busnesau eraill. Gall cyrff twristiaeth Cymreig (rhanbarthol a lleol) fynd ati i hyrwyddo busnesau garddwriaethol lleol, a'i gwneud yn haws i ymwelwyr gefnogi'r busnesau hyn trwy ddatblygu portholion ar y we i ganfod tyfwyr yn rhwydd a phrynu'n uniongyrchol ganddynt.

Tynnu sylw at arddwriaeth yn y Strategaeth Fwyd Genedlaethol, ac Asiantaeth Ddatblygu Genedlaethol

Mae llawer o sector garddwriaethol Cymru ar raddfa fechan, ond eto mae'n rhoi llawer o fudd yn amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd. Dylid cydnabod y manteision traws-sectorol anghymesur a roddir gan dyfwyr, a'u gwobrwyo mewn cynlluniau cyllido, a thynnu sylw atynt yn y Strategaeth Fwyd Genedlaethol Gymreig newydd.

Datblygu llwybrau dysgu i arddwriaeth

Datblygu addysg arddwriaethol yn systemaidd: Dylid datblygu corff hyfforddi garddwriaethol Cymreig unswydd, a'i hyrwyddo'n eang, gan ymdrin â dysgu ar bob lefel o addysg. Dylai garddwriaeth gael ei gynnwys mewn hyfforddiant amaethyddol ehangach fel agwedd allweddol o gynhyrchu bwyd. Dylai cynnwys AB ac AU ymdrin â phob agwedd o fod yn dyfwr cynaliadwy, gan gynnwys bioamrywiaeth, iechyd planhigion, sgiliau busnes, a sgiliau ymarferol.

Datblygu cynlluniau hyfforddi hybrid: Mae newydd-ddyfodiaid a thyfwyr presennol yn cael trafferth i fynd at hyfforddiant, sydd yn aml yn wasgaredig ac yn anodd i'w gyrraedd. Gallai datblygu adnoddau ar y cyd lle gall dysgwyr gyrchu cynnwys ar-lein yn ogystal â dysgu yn ymarferol yn eu hysgolion lleol, safleoedd AB neu AU ehangu cyfleoedd dysgu i newydd-ddyfodiaid a DPP. Byddai agwedd felly hefyd yn codi ymwybyddiaeth o arddwriaeth a thynnu sylw at ei berthnasedd a'i botensial i'r economi yn lleol a chenedlaethol.

Tanlinellu arwyddocâd diwylliannol a hanes garddwriaeth yng Nghymru: Mae naratif cyhoeddus cryf ar hyn o bryd yn atgyfnerthu'r gred boblogaidd fod systemau bwyd Cymru yn canoli ar gig a chynnyrch llaeth. Fodd bynnag, hyd at ganol yr 20fed ganrif, yr oedd ffermwyr Cymru ar y cyfan yn ymgorffori grawn a garddwriaeth mewn system ffermio gymysg. Gallai adfer y dreftadaeth hon a'i hyrwyddo mewn cynlluniau marchnata a hyrwyddo cenedlaethol a rhanbarthol helpu i godi ymwybyddiaeth o gynnyrch garddwriaethol Cymru a balchder ynddo ymysg defnyddwyr, ymwelwyr, ffermwyr a rheolwyr tir.

GWYBODAETH AM Y PROSIECT

Ymchwilwyr

Siobhan Maderson (Prifysgol Aberystwyth), Rachel Tuckett (Canolfan y Dechnoleg Amgen), Ruth Stevenson (Canolfan y Dechnoleg Amgen)

Darllen pellach

Mae mwy o wybodaeth am Labordai Arloesedd LIP yn www.lpip.cymru

Am fwy o wybodaeth

Cysylltwch â: Dr. Siobhan Maderson, sim14@aber.ac.uk

Cynhyrchwyd yr ymchwil yr adroddir amdano yn y Papur Briffio Polisi hwn fel rhan o Gymru Wledig LPIP Rural Wales, Partneriaeth Polisi ac Arloesedd Lleol Cymru Wledig, a gyllidir gan UKRI, corff cyllido ymchwil y Llywodraeth. Nod Cymru Wledig LPIP Rural Wales yw cryfhau'r sylfaen o dystiolaeth i lunio polisïau a chyflwyno'n effeithio i Gymru Wledig, ymchwilio a phrofi atebion arloesol i heriau polisi, a rhoi grym i gymunedau ymdrin â phryderon lleol, gan weithio tuag at y nod o economi lles cynhwysol a chynaliadwy yng nghefn gwlad Cymru. Mae. Cymru Wledig LPIP Rural Wales yn cael ei gyd-gordio gan Brifysgol Aberystwyth, gyda'r partneriaid, Prifysgol Bangor, Prifysgol Caerdydd, y Sefydliad Ymchwil Cefn Gwlad a Chymuned ym Mhrifysgol Caerloyw, Canolfan y Dechnoleg Amgen, Together for Change, Antur Cymru, Datblygiadau Egni Gwledig (DEG), Represent Us Rural, Iechyd a Gofal Gwledig Cymru, a Sgema. Mae mwy o wybodaeth yn www.lpip.cymru, neu trwy gysylltu ag lpip@aber.ac.uk

UK Research and Innovation

1872 Prifysgol Aberystwyth University

Centre for Alternative Technology
Canolfan y Dechnoleg Amgen